

FFORWM 50+ NEWYDDLEN 5
CANLYNIADAU AROLWG 4.

Y Tîm Rheoli Clefydau Cronig.

Gofynnwyd i aelodau ein Fforwm 50+ a oeddent wedi clywed am y tîm Rheoli Afiechydon Cronig cyn cael yr holiadur hwn gyda dimond 16% yn dweud eu bod wedi clywed amdano. Hefyd gofynnwyd iddynt pa gyflyrau yn eu barn nhw oedd yn cael sylw ar hyn o bryd gan y Tîm Rheoli Afiechydon Cronig a pha gyflyrau ddylai gael sylw. Roedd y canlyniadau fel a ganlyn...

Pa Gyflyrau?	Sy'n cael sylw gan y Tîm ar hyn o bryd?	Ddylai gael sylw gan y Tîm?
Methiant y Galon	12%	10%
Diabetes	12%	10%
Afiechyd llesteiriol cronig ar yr ysgyfaint	12%	10%
Crydcymalau gwynegol	7%	10%
Canser	11%	10%
Epilepsi	7%	9%
Asthma	9%	9%
Strôc	13%	11%
Ffibrosis codennog	8%	10%
Parlys ymledol (MS)	9%	10%

Yna gofynnwyd petaent yn cael cynnig gwasanaethau'r Tîm Rheoli Afiechydon Cronig gan eu meddyg, a fyddent yn caniatáu i'r tîm ymweld â nhw yn eu cartref ac roedd 97% wedi dweud y byddent.

Pan ofynnwyd iddynt pwy roeddent hwy'n credu oedd yn cyflogi'r Tîm Rheoli Afiechydon Cronig, dywedodd 15% o aelodau ein Fforwm 50+ Ymddiriedolaeth Hywel Dda, dywedodd 46% Bwrdd Iechyd Lleol Sir Gaerfyrddin a dywedodd 39% nad oeddent yn gwybod.

Ymgyrch Hawlio Budd-daliadau

Yn gyntaf gofynnwyd i aelodau ein Fforwm 50+ a oeddent yn cael cymorth ar hyn o bryd i dalu Treth y Cyngor neu eu rhent drwy Fudd-dâl Tai a dywedodd 24% eu bod yn cael cymorth. Pan ofynnwyd iddynt pa fudd-daliadau roeddent yn eu cael, dyma oedd y canlyniadau...

Budd-dâl Treth y Cyngor	67%
Ad-daliad Rhent (rhentu tŷ cyngor)	21%
Lwfans rhent (rhentu tŷ gan landlord preifat neu Gymdeithas Dai)	12%

Gofynnwyd beth oedd wedi ysgogi'r aelodau o'n Fforwm 50+ a oedd wedi dweud eu bod yn cael budd-dâl i wneud cais amdano. Hefyd gofynnwyd iddynt lle roeddent wedi llenwi'r ffurflen gais ac roedd 57% wedi dweud gartref ar ôl cael ffurflen drwy're post, 21% yn dweud y Canolfan Cwsmeiriaid y Cynor a 2 yn unig yn dweud dros y ffôn.

Pan ofynnwyd i'r aelodau beth oedd ansawdd y gwasanaeth a gawsant wrth wneud cais am y budd-daliadau, roedd y canlyniadau'n gadarnhaol iawn gyda 70% yn dweud bod y gwasanaeth yn da, 23% yn dweud ei fod yn arddechog a dim ond 7% a ddywedodd fod y gwasanaeth yn 'wael'.

93% o aelodau ein Fforwm 50+ wedi dweud ei bod yn hawdd iddynt ffonio'r Cyngor, wrth wneud ymholiadau neu wneud cais a dywedodd 46% bod yn well ganddynt gysylltu â'r Cyngor dros y ffôn. Dywedodd 37% bod yn well ganddynt siarad â rhywun wyneb yn wyneb drwy ymweld ag un o'r Canolfannau Gwasanaethau Cwsmeriaid a dim ond 17% oedd yn well ganddynt gysylltu â'r Cyngor drwy anfon llythyr neu e-bost.

Gofynnwyd i'r rheiny ohonoch a ddywedodd eu bod heb wneud cais am fudd-daliadau pam nad oeddech wedi gwneud cais ac roedd y canlyniadau fel a ganlyn...

Rydych chi'n sicr bod eich incwm yn rhy uchel	30%
Rydych chi'n cymryd bod eich incwm yn rhy uchel	42%
Mae'r broses gwneud cais yn rhy gymhleth	7%
Dydych chi ddim yn teimlo'n hapus yn gofyn am gymorth ariannol	5%
Cawsoch brofiad gwael pan wnaethoch gais o'r blaen	3%
Dydych chi ddim yn gwybod pa gymorth sydd ar gael	7%
Dydych chi ddim yn gwybod sut na ble i wneud cais	3%
Rydych chi'n cael trafferth cyrraedd swyddfa'r Cyngor	1%
Arall	1%

Pan ofynnwyd lle byddent yn mynd i gael gwybod a oeddent yn gymwys i gael budd-daliadau dywedodd 13% y byddent yn edrych ar wefan y Cyngor, dywedodd 19% y byddent yn ymweld â Chanolfan Gwasanaethau Cwsmeiriaid y Cyngor, a dywedodd 31% y byddent yn ffoinio Adain Budd-daliadau'r Cyngor.

Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru.

Roedd Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru am inni ofyn i aelodau ein Fforwm 50+ ynghylch diogelwch rhag tân yn eu cartrefi ac yn gyntaf gofynnwyd iddynt a oedd ganddynt larymau mwg yn eu cartrefi. Roedd y canlyniadau yn galonogol ac atebodd 96% yn gadarnhaol.

Hefyd gofynnwyd a oeddent yn gwybod y gallent ofyn i Wasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru gynnal Archwiliad Diogelwch Rhag Tân a gosod larwm tân am ddim yn eu cartref. Dywedodd 46% eu bod yn gwybod am hyn a dywedodd 33% eu bod eisoes wedi cael archwiliad. Dywedodd 16% y byddent yn hoffi cael archwiliad.

Mynediad at TG.

Roeddem yn eithaf awyddus i ofyn aelodau ein Fforwm 50+ am eu barn ynghylch mynediad at TG gan fod hyn wedi cael ei drafod eisoes yng nghyfarfodydd Grŵp Llywio'r Fforwm 50+. Gofynnwyd iddynt roi 3 gair oedd yn disgrifio orau eu teimladau am dechnoleg a'r 3 ateb mwyaf poblogaidd oedd hanfodol (21%), cymleth (16%) a fuddiol (15%).

Cawsom rai canlyniadau diddorol iawn pan ofynnwyd pa rai o'r canlynol oedd gan aelodau ein Fforwm 50+...

Cyfrifiadur neu gyfrifiadur côl	9%
Cyfrifiadur neu gyfrifiadur côl sydd â chysylltiad â'r rhyngrwyd	15%
Cysylltiad di-wifr â'r rhyngrwyd	7%
Ffôn poced	20%
Ffôn poced sydd â chysylltiad â'r rhyngrwyd	3%
PDA	0%
Chwaraeydd MP3	3%
Camera digidol	15%
Teledu digidol	19%
Radio ddigidol	8%

Pan ofynnwyd ynghylch defnyddio cyfrifiadur, dim ond 74% o'r rhai a atebodd a ddywedodd fod ganddynt fynediad at gyfrifiadur a dywedodd 26% nad oedd ganddynt fynediad o gwbl.

O blith y rhai a atebodd a ddywedodd fod ganddynt fynediad at gyfrifiadur, dywedodd 54% eu bod yn ei ddefnyddio bob dydd, dywedodd 2% eu bod yn ei ddefnyddio unwaith yr wythnos a dywedodd 4% eu bod yn ei ddefnyddio unwaith y mis. Roedd y mwyafrif (80%) o aelodau ein Fforwm 50+ a ddywedodd fod ganddynt fynediad at gyfrifiadur wedi dweud eu bod yn ei ddefnyddio gartref ac roedd 17% wedi dweud eu bod yn defnyddio cyfrifiadur yn y gwaith, ond dim ond 2% oedd yn defnyddio cyfrifiadur yn y llyfrgell.

Roedd 74% o'r rhai a atebodd wedi dweud bod ganddynt fynediad at y rhyngrwyd ac o blith y rhain dywedodd 50% eu bod yn ei ddefnyddio bob dydd, dywedodd 7% eu bod yn ei ddefnyddio unwaith yr wythnos a dywedodd 4% eu bod yn ei ddefnyddio unwaith y mis. Dywedodd 82% fod ganddynt fynediad at y rhyngrwyd gartref a dywedodd 15% eu bod yn ei ddefnyddio yn y gwaith a dywedodd 2x% eu bod yn ei ddefnyddio yn y llyfrgell.

Roeddem yn awyddus iawn i ofyn at ba ddiben roedd aelodau ein Fforwm 50+ yn defnyddio'r rhyngrwyd ac roedd y canlyniadau fel a ganlyn....

Siopa am fwyd	4%
Siopa am nwyddau	11%
Gwyliau	11%
Bancio	13%
Yswiriant	7%
Prynu a gwerthu cyffredinol	7%
Talu biliau (ffôn, nwy, trydan ac ati)	7%
Gwasanaethau'r Cyngor	4%
Diddordebau / fforymau / cymdeithasau	13%
Chwilio / pori yn gyffredinol am wybodaeth	20%
Lawrlwytho cerddoriaeth	4%
Arall	0%

Gan fod materion ynghylch cysylltiad Band Eang a'i gyflymder ar y cyfryngau byth a beunydd, roeddem yn awyddus i gael gwybod beth oedd barn ein haelodau am Fand Eang ac fe ymddengys bod gan 65% o'r rhai a atebodd gysylltiad Band Eang yn eu cartref.

O blith y rhai oedd heb gysylltiad Band Eang, dim ond 6% a ddywedodd fod hynny oherwydd nad oedd darpariaeth Band Eang ar gael yn yr ardal. Dywedodd 45% nad oeddent eisiau cysylltiad Band Eang ond dywedodd 15% er nad oedd ganddynt gysylltiad Band Eang ar hyn o bryd, eu bod yn bwriadu ei gael yn y dyfodol.

Pan ofynnwyd pa mor bwysig iddynt hwy oedd cael cysylltiad Band Eang â'r Rhynggrwyd, dywedodd 41% ei fod yn bwysig iawn a dywedodd 8% nad oedd yn bwysig iawn. Pan ofynnwyd pa mor bwysig i bobl Sir Gaerfyrddin oedd cael cysylltiad Band Eang â'r Rhynggrwyd, dywedodd 51% ei fod yn bwysig a dywedodd 1% nad oedd yn bwysig iawn neu ddim yn bwysig o gwbl.

Roedd 65% o'r rhai a atebodd wedi dweud bod ganddynt fynediad at e-bost ac o blith y rhain dywedodd 51% eu bod yn ei ddefnyddio bob dydd, dywedodd 38% eu bod yn ei ddefnyddio unwaith yr wythnos a dywedodd 3% eu bod yn ei ddefnyddio unwaith y mis. Dywedodd 87% eu bod yn cael mynediad at eu negeseuon e-bost yn eu cartref a dywedodd 12% eu bod yn cael mynediad atynt yn y gwaith. Dim ond 1% a ddywedodd eu bod yn cael mynediad atynt yn y llyfrgell.

Ar ôl gofyn cwestiynau mwy manwl am wasanaethau llyfrgell Sir Gaerfyrddin yn Arolwg 2 ein Fforwm 50+, roeddem yn dymuno cael gwybod i ba raddau roedd y cyhoedd yn gwybod am y gwasanaethau llyfrgell ac felly gofynnwyd a oedd aelodau ein Fforwm 50+ yn gwybod bod Cyngor Sir Gaerfyrddin yn cynnig mynediad am ddim i'r rhynggrwyd drwy ei lyfrgelloedd a'r hyn oedd yn galonogol oedd bod 70% wedi dweud eu bod yn gwybod am hynny.